Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad

Dyddiad: 15 Rhagfyr 2020

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu **CYFARFOD ARBENNIG** o'r **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD MAWRTH, 22 RHAGFYR 2020** am **9.30 am*** trwy gyfrwng **ZOOM**.

*** Noder amser dechrau'r cyfarfod os gwelwch yn dda**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 OSGOI A LLEIHAU PLASTIG YNG NGHYNGOR SIR DDINBYCH** (Tudalennau 5 - 10)

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Perfformaid a Chynllunio Strategol (copi yn atodedig) sydd yn cyflwyno i'r Pwyllgor argymhellion y Grŵp Tasg a Gorchwyl ar y Defnydd o Blastigion mewn perthynas â Cham 2 o'i waith a dyfodol y Grŵp.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Arwel Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Ellie Chard
Ann Davies
Martyn Holland
Geraint Lloyd-Williams
Bob Murray
Paul Penlington
Pete Prendergast
Peter Scott
David Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

**LOCAL GOVERNMENT ACT 2000**

**Code of Conduct for Members**

## DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

| | |
|---|---|
| I, (*name*) | |
| a *member/co-opted member of<br>*(*please delete as appropriate)* | **Denbighshire County Council** |

**CONFIRM** that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-
*(*please delete as appropriate)*

| | |
|---|---|
| Date of Disclosure: | |
| Committee (*please specify*): | |
| Agenda Item No. | |
| Subject Matter: | |
| Nature of Interest:<br>*(See the note below)** | |

| | |
|---|---|
| Signed | |
| Date | |

*Note: Please provide sufficient detail e.g. 'I am the owner of land adjacent to the application for planning permission made by Mr Jones', or 'My husband / wife is an employee of the company which has made an application for financial assistance'.

sir ddinbych denbighshire Cyngor County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad (Arbennig)** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **22 Rhagfyr 2020** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Emrys Wynne, Cadeirydd – Grŵp Tasg a Gorchwyl Defnydd o Blastig (Aelodau)** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Heidi Barton-Price - Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol** |
| **Teitl** | **Osgoi a Lleihau Plastig yng Nghyngor Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ystyried yr argymhellion a gynigwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen Defnydd o Blastig (Aelodau) (yn dilyn cyfarfod y grŵp a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2020). Yn y cyfarfod rhoddwyd diweddariad i Aelodau er mwyn iddynt ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer y Grŵp Tasg a Gorffen "Defnydd o Blastig" (Aelodau), hyfywedd Cam 2 fel y'i amlinellwyd yn y cynllun gweithredu cysylltiol gwreiddiol, ac unrhyw gamau gweithredu pellach.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cydnabod gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen o safbwynt yr hyn a gyflawnwyd yn ystod Cam 1, hynny yw gostwng ac osgoi'r defnydd o blastig untro mewn swyddfeydd dinesig.

2.2. Galluogi Aelodau i graffu ar yr argymhellion arfaethedig fel ffordd ymlaen o safbwynt Cam 2 a dyfodol y Grŵp.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Craffu Perfformiad yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen hyd yma ac yn cymeradwyo'r argymhellion canlynol:

(i) o ystyried yr amgylchiadau oherwydd pandemig byd-eang COVID-19, na ddylai gwaith Cam 2 y Grŵp fynd rhagddo, ac y dylid dod a'r Grŵp Tasg a Gorffen i ben;

(ii) dylid cydlynu unrhyw gyfleoedd i leihau’r defnydd o blastig o fewn arlwyo ysgolion a chaffael, yn ogystal ag unrhyw waith yn y dyfodol ar osgoi a lleihau plastig yng Nghyngor Bwrdeistref Sir Ddinbych (gan gynnwys Modelau Darparu Amgen) fel Denbighshire Leisure Limited (DLL)), o dan y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig; ac

(iii) wedi cytuno ar yr argymhellion uchod, fod y Pwyllgor yn eu cyflwyno i’r Cyngor Sir er mwyn eu cymeradwyo

## 4. Manylion yr Adroddiad

Ddiwedd Ionawr 2020, cymeradwyodd y Cyngor Llawn yr argymhellion a gynhwyswyd yng nghynllun gweithredu cychwynnol y Grŵp Tasg a Gorffen i leihau’r defnydd o blastig mewn swyddfeydd dinesig (Cam 1). Cytunodd y Cyngor Llawn hefyd i gais y Grŵp i barhau ei waith am 12 mis arall er mwyn dyfeisio dulliau o leihau’r defnydd o blastig mewn dau faes penodol – sef arlwyo ysgolion a chaffael (Cam 2).

O fewn ychydig wythnos i wneud y penderfyniad uchod, cyrhaeddodd pandemig COVID-19 ac aeth y wlad i gyfnod clo.

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu’r argymhellion arfaethedig yn dilyn cyfarfod diweddar y Grŵp Tasg a Gorffen Defnydd o Blastig  (Aelodau), lle bu i’r grŵp gydnabod yr hyn a gyflawnwyd yng Ngham 1 o safbwynt lleihau’r defnydd o blastig mewn swyddfeydd dinesig ac ystyried ffordd ymlaen o safbwynt y gwaith roeddynt i fod i’w gyflawni, ond na allent symud ymlaen â Cham 2 (Arlwyo Ysgolion a Chaffael) oherwydd y pandemig.

Gweler Atodiad A am Sefyllfa Gyfredol ac Ystyriaethau Pellach y Grŵp Tasg a Gorffen.

Mae’n amlinellu’r argymhellion arfaethedig y mae’r Grŵp Tasg a Gorffen Defnydd o Blastig (Aelodau) yn gofyn i’r Pwyllgor Craffu Perfformiad fynd â nhw ymlaen i’r Cyngor Sir i’w cymeradwyo.

Swyddogion sydd yn ymwneud â’r Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol – awgrymu bod yr argymhellion (ii) yn cynnwys y geiriau canlynol wedi eu hamlygu mewn testun bras ‘Bydd cyfleoedd i leihau’r defnydd o blastig mewn arlwyo ysgolion a chaffael **er budd lleihau allyriadau carbon** yn ogystal ag unrhyw waith yn y dyfodol ar osgoi a lleihau plastig yng Nghyngor Sir Ddinbych (gan gynnwys ei Fodelau Darparu Amgen) e.e. Denbighshire Leisure Limited (DLL) yn cael ei gydlynu o dan y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig.

Byddai camau gweithredu sy'n cefnogi'r broses o osgoi a lleihau y defnydd o blastig yn cwympo o dan ffrydiau gwaith Gwastraff a Chadwyn Gyflenwi y Rhaglen Ddi-Garbon Net o fewn Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig y Cyngor. Bydd camau gweithredu sy'n lleihau carbon o'n gwastraff a'n cadwyn gyflenwi yn cael eu datblygu a'u darparu dros y 9 mlynedd nesaf ac yn ddibynnol ar dderbyn cyllid. Bydd rhai camau gweithredu sy'n lleihau carbon o wastraff a'r gadwyn gyflenwi hefyd o fudd o safbwynt osgoi a lleihau'r defnydd o blastig.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y penderfyniad yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth Amgylcheddol a gynhwysir o fewn y Cynllun Corfforaethol 2017–2022.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol.  Nid oes unrhyw gynnig ariannol ynghlwm â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae'r Asesiad Effaith ar Les yn asesiad integredig o'r effaith. Mae hyn yn golygu ei fod wedi'i gynllunio i asesu effaith debygol ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd. Mae'r cais i'r gwaith gael ei gydlynu o dan y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig yn arddangos dull gweithredu cynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd ac yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y nodau lles.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen (Aelodau) Defnydd o Blastig wedi gwneud yr argymhellion hyn i Craffu ar ôl ymgynghori gyda Swyddogion perthnasol gan gynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Parth Cyhoeddus, Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol, Rheolwyr Arlwyo Ysgolion, Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd yn ogystal â'r Cynghorydd Brian Jones (Aelod Arweiniol) a'r Cynghorydd Graham Timms (Cadeirydd y Gweithgor Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn ogystal ag aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen Plastig).

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risg y bydd peth ysgogiad yn cael ei golli gan na fydd y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn darparu ffocws penodol ar osgoi a lleihau'r defnydd o blastig untro. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd deddfwriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddwyn ymlaen yn ystod hydref 2021 gyda'r nod o leihau'r defnydd o blastig untro ar draws Cymru, yn helpu i gyflawni nodau gwaith Cam 2 y grŵp O dan y ddeddfwriaeth arfaethedig bydd gofyn i gyrff cyhoeddus ac eraill yng Nghymru leihau eu defnydd o blastig untro. Bydd hyn yn ei wneud yn ofynnol i holl wasanaethau'r Cyngor ail werthuso eu defnydd o blastig untro a defnyddio cynnyrch sydd wedi eu gwneud o ddeunyddiau amgen at bob pwrpas ar wahân i'r rheiny sydd wedi eu heithrio o dan y ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, gallai cadw'r Grŵp Tasg a Gorffen (Aelodau) wedyn fod mewn peryg o ddyblygu gwaith a gwyro amser Aelodau ar gyd-destun ehangach y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a fydd yn golygu llai o ddefnydd o blastig.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â Datblygu ac Adolygu Polisi wedi'u hamlinellu yn Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor, tra bod Adran 7.2.2 o'r Cyfansoddiad yn amodi y gall y Pwyllgor Craffu "wneud adroddiadau neu argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet mewn cysylltiad â rhyddhau unrhyw swyddogaethau".

# Atodiad A - Sefyllfa Gyfredol ac Ystyriaethau Pellach y Grŵp Tasg a Gorffen.

**Swyddfeydd Dinesig (Cam 1):** Mae'r amcanion ar gyfer Cam 1 wedi eu cyflawni. Mae'r holl beiriannau lluniaeth, peiriannau gwerthu a chyfarpar oeri dŵr wedi eu diffodd ers diwedd Mawrth 2020. Mae rhai o'r peiriannau eisoes wedi eu casglu gan y cyflenwyr ac mae eraill yn aros i gael eu casglu. Mae'r broses o'u gwaredu, fel nifer o wasanaethau a thasgau eraill, wedi ei oedi oherwydd pandemig COVID-19.

**Arlwyo Ysgolion (Cam 2):** Mae effaith pandemig COVID-19 ar y Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion, wedi golygu mesurau diogelwch bwyd ychwanegol er mwyn lleihau'r risg o haint wrth ddarparu prydau ysgol i ddisgyblion y sir. O ganlyniad, mae mwy o blastig a pholystyren yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion o'i gymharu â chyn y pandemig. Dywedodd Swyddogion wrth y Grwp Tasg A Gorffen oherwydd cyfyngiadau cyfredol, y dylid gohirio'r gofynion a'r disgwyliadau i leihau'r defnydd o'r deunyddiau hyn tan fydd y pandemig drosodd.

**Denbighshire Leisure Limited (DLL)**: Yn ystod camau cynnar y gwaith bu'r Grŵp Tasg a Gorffen yn archwilio defnydd Gwasanaeth Hamdden y Cyngor o blastig untro, a phenderfynwyd canolbwyntio ar geisio lleihau defnydd y Gwasanaeth o ddeunyddiau plastig yn hwyrach ymlaen. Ers hynny mae'r broses o reoli darpariaeth gwasanaeth hamdden y sir wedi ei drosglwyddo i Denbighshire Leisure Limited (DLL) ac felly roedd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyngor. O ganlyniad, roedd archwilio defnydd DLL o blastig y tu allan i gylch gorchwyl y Grŵp, gan fod gan DLL ei drefniadau rheoli ei hun a'i strwythur llywodraethu ar ffurf y Bwrdd Llywodraeth Strategol, yr oedd Aelodau Arweiniol a chynrychiolydd Craffu yn eistedd arno.

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Leihau'r Defnydd o Blastig Untro** Mae Sir Ddinbych wedi ymateb fel rhan o ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar y cyd i Lywodraeth Cymru oedd yn cydnabod y brys sydd i fynd i'r afael â'r problemau sy'n deillio o ddefnyddio plastig untro. Roedd yr ymateb yn cynnwys ymateb o safbwynt effaith COVID-19 ar y defnydd o blastig, yr angen parhaol am ddibenion iechyd a diogelwch a rheoli haint i ddefnyddio plastig ar gyfer darparu gwasanaethau penodol, yn ogystal â materion ymarferol sy'n ymwneud â gorfodi unrhyw reoliadau newydd a goblygiadau ariannol gwaith gorfodi. Mynegwyd pryderon hefyd o safbwynt yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r gwaharddiad, sef hydref 2021. Rydym yn aros am adborth o'r

ymgynghoriad ar hyn o bryd, sydd i'w gyfathrebu drwy grŵp Cyfarwyddwyr Amgylcheddol CLlLC.

**Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol:** Byddai camau gweithredu sy'n cefnogi'r broses o osgoi a lleihau y defnydd o blastig yn cwympo o dan ffrydiau gwaith Gwastraff a Chadwyn Gyflenwi y Rhaglen Ddi-Garbon Net o fewn Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig y Cyngor. Bydd camau gweithredu sy'n lleihau carbon o'n gwastraff a'n cadwyn gyflenwi yn cael eu datblygu a'u darparu dros y 9 mlynedd nesaf ac yn ddibynnol ar dderbyn cyllid. Bydd rhai camau gweithredu sy'n lleihau carbon o wastraff a'r gadwyn gyflenwi hefyd o fudd o safbwynt osgoi a lleihau'r defnydd o blastig.